# Arolygiad o dan Adran 28 o Ddeddf Addysg 2005

**Ysgol Glanadda**
**Ffordd Caernarfon**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 4SG**

**Rhif yr Ysgol: 6612051**

**Dyddiad yr Arolygiad: 13/03/07**

**gan**

**David Martin Cray**
**16768**

**Dyddiad Cyhoeddi: 20/04/07**

**Dan rif contract Estyn: 1109506**

**Ysgol Glanadda 13/03/07**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

79 Mae ansawdd cyffredinol y cynlluniau gwaith ar gyfer y meysydd pynciol a'r maes llafur addysg grefyddol yn dda ac mae'r mwyafrif yn cynnig arweiniad

priodol i'r athrawon. Yn sgil ail drefnu'r dosbarthiadau mae'r athrawon wedi cychwyn ar ddiwygio'r cynlluniau i adlewyrchu gofynion y sefyllfa bresennol.

80 Hyrwyddir datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion o fewn y gwasanaethau o gydaddoli dyddiol. Maent wedi'u cynllunio'n dda ac yn cydymffurfio a'r gofynion. Rhoddir cyfleoedd cyson i'r disgyblion gyfrannu a chyfoethogir y ddarpariaeth trwy ymweliadau a chyflwyniadau clerigwyr. Mae'r gwasanaethau yn annog y disgyblion i feithrin gwerthoedd megis gonestrwydd ac i barchu gwirionedd a chyfiawnder.

81 At ei gilydd, mae datblygiad diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn caeleu hyrwyddo'n dda. Cânt eu hannog i ymroi i godi arian ar gyfer gwahanol elusennau cenedlaethol a rhyngwladol, megis eu hymgyrch diweddaraf ar gyfer 'Comic Relief'. Mae'r disgyblion hyn yn cael cyfleoedd da i ymgymryd ag amrywiaeth o gyfrifoldebau sydd yn dangos ystyriaeth o ddisgyblion ifancach.

**Addysg grefyddol**

166 Yn ystod yr arolygiad, ni arsylwyd ar wersi addysg grefyddol mewn un o’r dosbarthiadau. Mae tystiolaeth ar sail trafodaeth gyda’r disgyblion, ynghyd ag archwiliad o waith blaenorol yn dangos bod safonau cyflawniad fel a ganlyn:

**Cyfnod Allweddol 2 – Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion**
**Nodweddion da**

167 Mae’r disgyblion yn gwybod am arwyddocâd y Beibl i’r ffydd Gristnogol ac am rai o straeon yr Hen Destament a’r Testament Newydd.

168 Maent yn medru cyfeirio at addoldai lleol ac yn gwybod bod pobl yn eu mynychu ar y Sul. Mae ganddynt ddealltwriaeth o bwrpas gweddi ac o bwrpas y gwasanaethau a gynhelir yn yr ysgol.

169 Mae eu hymwybyddiaeth o werthoedd megis cyfeillgarwch a charedigrwydd at arall yn datblygu’n dda.

170 Gwyddant am waith a hanes cymwynaswyr fel Dr Barnardos a Florence Nightingale.

171 Sylweddolant fod gan grefyddau eraill lyfrau sanctaidd a medrant sôn yn fras am rai o ddefodau a gwyliau sydd yn perthyn i’r crefyddau hynny.

**Diffygion**

172 Nid oes gan y disgyblion afael digon cadarn ar ystod o hanesion Beiblaidd.

173 Arwynebol yw eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o grefyddau’r byd ac o wahanol arteffactau crefyddol.